


# Pererindod yr Ofalaeth

## Sain Ffagan & Bae Caerdydd



Bydd pererindod yr Ofalaeth yn mynd draw i Sain Ffagan ac yna i'r Bae cyn mynd am swper.



Os oes diddordeb rhowch eich enw ar y rhestr sydd yn y cyntedd neu anfonwch neges at Dylan.

## O e d f a o n

**Mai 19, 2024**
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gweinidog

**Mai 26, 2024**
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Parchg Emyr Gwyn Evans

**Mehefin 2, 2024**
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gweinidog

## Gofalaeth Glannau Ogwr

glannauogwr.cymru

**Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr**
4 Derwen Rd, Penybont, CF31 1LH

**Tabernacl, Porthcawl**
18 Fenton Place, Porthcawl, CF36 3DW

**Gweinidog**
Parchg Dylan Rhys Parry
4 Heol Cambell, Coity, CF35 6GP
Symudol: 07535904599
Ebost: dylan89rhys@gmail.com

Gofalaeth Glannau Ogwr

Papur Wythnosol Gofalaeth Glannau Ogwr

# KOINONIA

Rhifyn 92 Mai 12, 2024

## Y Goleuni yn y Gogledd

Os wnaethoch edrych i fyny at yr awyr nos Wener, mwy na thebyg fel welsoch yr Aurora Borealis neu Goleuni'r Gogledd fel mae'n cael ei adnabod gan y mwyafrif. I mi'n bersonol, nos Wener cefais wireddu breuddwyd o weld a'n llygaid fy hun yr Aurora. Yn aml iawn nid yw'r ffenomen i'w weld yma yng Nghymru, gan fod angen amgylchiadau perffaith a noson glir heb gymylau. (Cyfaddef dweud bod y nosweithiau hynny'n brin yng Nghymru fach). Gwledydd fel Norwy neu Gwlad yr iâ sydd yn mantesio fel arfer. Pelydrau'r haul sydd yn gyfrifol, lle mae'n cyrraedd maes magnetig y ddaear ac yn achosi iddo adweithio a chreu'r lliwiau prydferth a welwn heddiw. Dyma greadigaeth Duw yn ei holl ogoniant, gallwch chi ddim llai na syllu yn geg agored at farwedd a phrydferthwch y rhubannau piws a gwyrdd sydd yn dawnsio ar gynfas o sêr. Nol yn 1774 fel welodd Williams Williams Pantycelyn yr un peth. Iddo ef roedd hyn yn newydd, bron yn apocolyptig gyda gwybodaeth yr oes, ond y mae yn rhyfeddu fel finna, fel Cristion, at greadigaeth Duw.



**Fe gyrwydrodd fy meddyliau**
**Am y goleu fy'n y nen,**
**Dieu meddwn mae yn arwydd**
**O ryw beth fy i dd'od i ben;**
**Naill ai arwydd byd ar fyrder**
**Hyn o fyd yn danllwyth dân,**
**Neu ynteu caiff Efengyl IESU**
**Rwydd-deb llawn i fyn'd ymlaen.**

Sut bynnag bydde ni'n gweld Goleuni'r Gogledd heddiw, boed i ninnau ryfeddu'n ogystal at fawredd Duw, at ei greadigaeth. Weithiau mae aros yn y fan, syllu a gadael ein meddyliau i grwydro yn rhan o'n haddoliad. I William Williams arwydd o lwyddiant yr Efengyl oedd yr Aurora, i mi mae'n dod a fi wyneb yn wyneb a chreadigrwydd Duw, ac yn hynny mae lle i fyfyrio.

## Digwyddiadau Wythnos Cymorth Cristnogol 2024

### Dydd Sul, Mai 12

3yp: Oedfa Undebol Cymorth Cristnogol, Tabernacl Porthcawl

6yh: Oedfa Undebol Cymorth Cristnogol, Tabernacl Pen-y-bont

### Dydd Mawrth, Mai 14

11yb: Glanhau Traeth Coney, i'w ddilyn gan baned a chacen. Cwrdd o flaen siop Sussed (James Street, Porthcawl)

### Dydd Sadwrn, Mai 18

10yb-12yp: Bore Coffi Undebol Cymorth Cristnogol, Eglwys Hope, Pen-y-bont.

10yb-1yp: Gwerthu Planhigion, Eglwys Trinity, Porthcawl

11yb-3yp: Pererindod Porthcawl – Taith gerdded noddedig ar gyfer Cymorth Cristnogol.

3yp: Cream Tea' yn Eglwys Dewi Sant, Notais, Porthcawl

Yn codi arian tuag at Apêl Cymorth Cristnogol 2024

Croeso cynnes i bawb!

## Cariad Rhyfeddol Cymorth Cristnogol

Thema Wythnos Cymorth Cristnogol eleni yw Cariad Rhyfeddol. Fe ddywed Cymorth Cristnogol. Mae cariad Duw tuag aton ni y tu hwnt i'r hyn y gallwn ei ddychmygu. Fe'n gelwir i fyw'r cariad hwnnw mewn gwasanaeth tuag at ein gilydd.

Burundi yw'r wlad dan sylw eleni. Mae Burundi'n un o'r gwledydd tlotaf yn y byd yn ariannol. Mae mwy na 70% o"r boblogaeth yn byw mewn tlodi.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwneud eu bywoliaeth trwy ffermio. Mae'r argyfwng hinsawdd wedi effeithio'n arwyddocaol ar amaethwyr, sy'n wynebu sychderau, llifogydd a thirlithriadau. Dim ond un pryd y dydd mae llawer o deuluoedd yn llwyddo i"w fwyta.

Dywed Philip Galgallo, Cyfarwyddwr Gwlad Cymorth Cristnogol Burundi. "Dwi'n meddwl mai'r pryder mwyaf i'r rhan fwyaf o famau Burundi ydy sut i fwydo eu plant."

### Gweddi Wythnos Cymorth Cristnogol

Dduw cariadlon,
Helpa ni i glywed lleisiau'r rhai hynny sy'n dioddef tlodi eithafol. Mae hi'n anodd gwrando ar straeon am boen. Dangos inni sut y gall tosturi dros eraill ddod ag iachâd a llawnder bywyd i bawb. Helpwch ni i ddeall ein bod yn un trwy dy gariad, gan dy fod ti'n caru pob bod dynol, y tu hwnt i fesur.

Dduw cariadlon, rwyt ti'n ein galw i adeiladu dy deyrnas o gyfiawnder, trugaredd, a gwirionedd. Nid gorchwyl i rai gwangalon ydy hwn. Pan fyddwn ni'n colli ein hymdeimlad o bwrpas, llenwa ni â ffydd. Pan fyddwn ni'n amau neu'n cael ein llethu gan anobaith, llenwa ni â gobaith.

Pan fyddwn ni'n mynd heibio i'n cymydog fel petai ni ddim yn eu nabod,Llenwa ni â"r cariad hwnnw sy'n ein troi ni'n ôl ac yn ein tywys i estyn cymorth iddyn nhw.
Yn enw Iesu,
**Amen.**

